CYNGOR CYMUNED PISTYLL
RHAGLEN CYFARFOD MISOL – 11 Tachwedd 2026



1.	**Croeso gan Olwen Roberts (Cadeirydd dros dro oherwydd bod y Cadeirydd ar ei wyliau)**
2.	**Ymddiheuriadau: Wil Jones (WJ)** **Dim ymddiheuriadau:**
3.	**Datgan buddiant:**
4.	**Cyflwyno a mabwysiadu cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf 2026:** **Osian Williams (OW), gydag Emlyn Williams (EW) yn eilio.**
5.	**<u>Materion yn codi</u>** a) Diweddariad – Maes Parcio'r Ganolfan: Mae'r maes parcio wedi bod ar gau ers 13 Medi. Mae Tîm Tacluso Cyngor Gwynedd wedi bod yno yn clirio'r chwyn. Mae pawb sy'n parcio yno wedi cael nodyn ar eu car ynghylch cau'r maes parcio am fis [cadarnhau'r manylion]. Mae hyn wedi gorfodi trigolion i barcio mewn mannau eraill dros dro, gan achosi problemau parcio yn y pentref. Y gobaith yw y bydd y gwaith o baentio'r llinellau yn dechrau ddydd Gwener [cadarnhau'r dyddiad], os bydd y tywydd yn sych. b) Diweddariad – Bancio ar-lein HSBC: Disgwylir cod er mwyn cael mynediad. c) Diweddariad – Bwlch y Gwynt: Mae'r Cynghorydd Jina Gwyrfai wedi paratoi llythyr ymgynghori i drigolion ei lofnodi a chyflwyno sylwadau ar enw'r lôn ac a ddylid ei newid yn ôl I'r enw gwreiddiol o'r Lon Groes. Hyd yn hyn mae'r Clerc wedi derbyn 5 llythyr cefnogaeth. d) Diweddariad – Lôn Groes: Bydd y lôn ar gau am dri diwrnod o 19 Hydref ar gyfer gwaith y bwrdd dŵr. Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu cyfarfod â chynghorwyr Cyngor Cymuned Pistyll (GJ ac OW) i weld a thrafod cyflwr y lôn. Ni fydd modd dechrau'r gwaith tan fis Rhagfyr. e) Diweddariad – Lôn Rhosydd: Mae JG wedi siarad â CG, sy'n bwriadu gosod arwyddion ar ben a gwaelod Lôn Rhosydd i nodi ei bod yn anaddas i gerbydau nwyddau trwm (HGV). f) Diweddariad – Sedd wag Llithfaen: Dim ond un cais a ddaeth i law, ac mae'r sedd wedi'i llenwi gan Nia Ynyr. g) Diweddariad – Pwyllgor Cae Chwarae Llithfaen: Cynhaliwyd cyfarfod cadarnhaol gyda rhieni lleol, ac mae swyddi'r Ysgrifennydd, y Trysorydd a'r Cadeirydd wedi'u llenwi. Mae SEP wedi gofyn i'r pwyllgor anfon llythyr ynghyd â mantolen er mwyn i Gyngor Cymuned Pistyll gyfrannu tuag at gost yr yswiriant blynyddol. h) Diweddariad – Dŵr Cymru: Mae Dŵr Cymru wedi anfon e-bost yn cadarnhau bod y gwaith mynd i dechrau ar 3ydd Tachwedd ar lon Plas. i) Diweddariad – Mae Bleddyn (AHNE) yn dymuno trefnu cyfarfod â chynghorydd o Gyngor Cymuned Pistyll a Nant Gwrtheyrn i drafod gwaith i wella'r maes parcio ar ben Nant.
6.	**Gwefan CCP:**
7.	**Diweddariad cyllidol gan Wiliam Jones (y Cadeirydd):** Diweddaru Asedau: Cyfrif Elusen HSBC: £ Cyfrif wrth gefn HSBC: £2,800.00 Gwariant mis Tachwedd: Ffi torri gwair Eglwys Pistyll £810.00 Cyflog y Clerc £300.00
8.	**Bioamrywiaeth yn ardal CCP: Mae angen trafod a diweddaru'r polisi yng nghyfarfod mis Tachwedd.**
9.	**Unrhyw fater arall / materion lleol:**

	Tŷ'r Ysgol – Mae lori a threlar wedi taro'r tŷ am y trydydd tro. Roedd y cerbyd yn ceisio troi o'r groesffordd, gan achosi difrod i ochr y tŷ a'r giât. Nid oes camera teledu cylch cyfyng (CCTV) o flaen Tafan y Fic, ac mae'r Cyngor wedi gofyn i drigolion lleol sydd â chloch drws Ring wirio a yw eu camerâu wedi recordio'r digwyddiad. Mae'r digwyddiad wedi'i adrodd i'r Heddlu a Chyngor Gwynedd. **Pont Murgoedan** – Mae OR yn nodi bod crac yn y bont. **Is-gadeirydd** – Nid oes Is-gadeirydd ers i GLJ ymddiswyddo. Enwebwyd Emlyn Williams **Cae Chwarae Pistyll** – Mae angen gwirio cofnodion y Gofrestrfa Tir i ganfod pwy sy'n berchen ar y lôn a'r ffos wrth y fynedfa i Gae Chwarae Pistyll. Mae GL Jones Playgrounds (Bethesda) wedi cysylltu â'r Clerc i ddweud eu bod yn dod i osod y 'Fidget Board' yn y cae chwarae brynhawn Llun, 2 Tachwedd. Mae'r Clerc wedi trefnu gyda'r Cynghorydd Osian Williams iddo fod yno i sicrhau bod yr offer yn cael ei osod mewn man addas i blentyn sy'n defnyddio cadair olwyn. Angen anfon llun ymlaen at Alys (grantiau CG) **Cais cynllunio yn Llithfaen** – Mae OR wedi datgan buddiant. Bydd CCP yn anfon e-byst at yr Adran Gynllunio i fynegi cefnogaeth i bobl leol allu byw yn eu hardal leol. **Cais cynllunio ym Mhistyll C26/0595/43/LL** – Adeiladu stabl a maes marchogaeth ar gyfer elusen leol. Mae CCP yn cefnogi'r cais oherwydd y digwyddiadau iechyd a llesiant lleol y bydd yn eu cynnal yno. **Logo** – JG yn cynnig mabwysiadu y logo wnaeth y Clerc creu ar gyfer y llythyr ymgynghori Pistyll.
10.	**Pwyllgor y Ganolfan:** Mae'r pydredd sych wedi'i drin â chwistrell. Mae angen aros am dair wythnos cyn rhoi ail driniaeth, ac yna gosod byrddau plastr i gau'r ardal a'i gwneud yn ddiogel.
11.	**Cyfarfod nesaf:** Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Tachwedd 2026 am 7yh yng Nghaffi Ceiri, Llithfaen. ***Os na allwch fynychu'r cyfarfod, mae'n bwysig ymddiheuro ymlaen llaw drwy anfon e-bost at clerc@ccp.cymru, anfon neges destun i 07732 363586 gan gynnwys eich enw, neu roi gwybod i aelod arall.***